@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James



## Wythnos Gwrth Fwlio

Mae'r Pwyllgor Gwrth-fwlio ac Iechyd a Lles wedi bod yn cwrdd i drafod digwyddiadau posib ar gyfer yr wythnos hon. Mi fydd nifer o'r digwyddiadau yn digwydd mewn gwersi a sesiynau trafod, ond un digwyddiad traws ysgol yw'r diwrnod 'Sanau Sili' (diolch i Ysgol Penweddig am yr enw!) **ar ddydd Mercher y 15fed o Dachwedd.** Bydd hi'n ddiwrnod Gwasanaeth Ysgol Gyfan ar ddydd Mercher ac felly'n gyfle i ni i gyd ddathlu ein sanau gwahanol gyda phawb!

## PC Hannah ym Mlwyddyn 4

Ry'n ni'n parhau i fod yn ddiolchgar iawn i PC Hannah am ei chefnogaeth gyson i'r ysgol yn addysgu'r plant am beryglon gwahanol. Yr wythnos hon mi fydd PC Hannah yn ymweld â Blwyddyn 4 ar ddydd Mawrth er mwyn hwyluso'r sesiwn 'Ffrind neu Elyn?'

## Diwrnod Plant Mewn Angen



Ar ddydd Gwener yr 17eg o Dachwedd mi fyddwn yn cynnal digwyddiadau i gefnogi Plant Mewn Angen. Diolch yn fawr i'r Pwyllgor Dyngarol am drefnu digwyddiadau'r diwrnod sef i ddod i'r ysgol mewn gwisg ffansi neu pyjamas ac ati am gyfraniad o £1, yna 'Sgen ti Dalent? yn y Neuadd yn ystod y bore! Lot o sbri gobeithio!







## Carol yr Ŵyl 2023

Mae'r ysgol yn falch i gyhoeddi ein bod wedi ein dewis i ymddangos ar raglen Prynhawn Da S4C yn ystod mis Rhagfyr, wrth gyrraedd y 10 olaf yng nghystadleuaeth Carol yr Ŵyl eleni. Mae'r garol wedi ei chyfansoddi gan aelodau o staff yr ysgol ac yn cael ei pherfformio gan ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6. Bydd y diwrnod ffilmio yn digwydd ar ddydd Gwener y 24ain o Dachwedd.

## Cardiau Nadolig 2023

Diolch i'r plant am eu brwdfrydedd gyda'u dyluniadau cardiau Nadolig eleni. Cofiwch ddychwelyd y dyluniadau **a llenwi'ch manylion archebu yn llawn ar y cefn** i'r ysgol dim hwyrach na'r dydd Gwener, sef y 17eg o Dachwedd. Byddwch yn talu trwy ParentPay amdanynt, os ydych yn dymuno prynu.

## Noddi Cyngerdd Nadolig

Os hoffech noddi'r rhaglen ar gyfer ein Cyngerdd Nadolig ni eleni, cysylltwch gyda Ceri yr ysgrifenyddes os gwelwch yn dda trwy swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk yn nodi faint yr hoffech noddi (£50 – chwarter tudalen, £100 hanner tudalen neu £150 am dudalen gyfan) Bydd angen i ni dderbyn eich hysbyseb ar ffurf jpeg neu pdf hefyd os gwelwch yn dda.

## Y Gymraeg

Neges ar ran Mari Gwilym**,** Rheolwr Cynlluniau Dysgu Cymraeg Mudiad Meithrin:

Atodaf daflen hyrwyddo sesiynau diweddaraf cynllun 'Clwb Cwtsh' gan Mudiad Meithrin sydd yn dechrau ar 27 o Dachwedd all fod o ddiddordeb i rieni/gofalwyr ac aelodau eraill o'ch cymuned leol.

Mae Clwb Cwtsh yn gwrs blasu Cymraeg rhad ac am ddim dros 8 neu 7 wythnos sydd wedi'i anelu at ddysgwyr cwbl newydd ac sy'n canolbwyntio ar iaith magu plant yn y cartref. Mae'r sesiynau'n hwyliog, ysgafn ac yn defnyddio canu a gemau, gydag amser am baned!

Rydym yn parhau i ddarparu cyrsiau rhithiol er mwyn sicrhau nad yw mynediad yn rwystr i bobl ymuno, ond erbyn hyn mae cyrsiau wyneb yn wyneb hefyd ar gael, yn dibynnu ar ardal.

Os hoffech gynnig cwrs Clwb Cwtsh arbennig ar gyfer rhieni/gofalwyr plant yn eich Cylch neu'ch ysgol yn y dyfodol neu am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni: clwbcwtsh@meithrin.cymru

A fyddai'n bosib i rannu'r cyfle gwych yma gyda rhieni/gofalwyr eich ysgol, os gwelwch yn dda?







## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig ar ddydd Iau yr 21ain o Ragfyr am 3:30yp.
Tymor y gwanwyn yn cychwyn ar ddydd Mawrth y 9fed o Ionawr 2024.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro**
**13/11/2023**
www.ysgolgymraeg.cymru

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James



## *Anti-Bullying Week*

*The Anti-Bullying and Health and Wellbeing Committee have been meeting to discuss possible events for this week. Many of the events will take place in lessons and discussion sessions, but one whole-school event is the 'Sanau Sili' (Odd socks) day (thanks to Ysgol Penweddig for the name!) on Wednesday the 15th of November. It will be Whole School Assembly day on Wednesday and therefore an opportunity for us all to celebrate our odd socks with everyone!*

## *PC Hannah in Year 4*

*We continue to be very grateful to PC Hannah for her constant support in teaching the children about different dangers. This week PC Hannah will be visiting Year 4 on Tuesday to facilitate the session 'Friend or Foe?'*

## *Children in Need Day*

*On Friday the 17th of November we will be holding events to support Children in Need.*
*Many thanks to the Humanitarian Committee for organizing the day's events namely to come to school in fancy dress or pyjamas etc. for a donation of £1, then 'Sgen ti Talent? (Have a go) in the Hall during the morning! Lots of fun I hope!*









## *Carol yr Ŵyl 2023*

*The school is proud to announce that we have been chosen to appear on S4C's Prynhawn Da programme during the month of December, reaching the last 10 in this year's Carol yr Ŵyl competition. The carol has been composed by members of the school's staff and is performed by pupils in years 5 and 6. The filming day will take place on Friday the 24th of November.*

## *Christmas cards 2023*

*Thank you to the children for their enthusiasm with their Christmas card designs this year. Remember to return the designs and fill in your order details in full on the back to the school no later than Friday, which is the 17th of November. Payment will be made through Parentpay for those wishing to purchase.*

***Sponsoring the Christmas Concert***
*If you would like to sponsor the programme for our Christmas Concert this year, please contact Ceri the secretary via swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk stating how much you would like to sponsor (£50 – quarter page, £100 half page or £150 for a whole page) We will also need to receive your advert in jpeg or pdf format please.*

***The Welsh language***
*A message from Mari Gwilym, Mudiad Meithrin Learn Welsh Schemes Manager:*
*I attach a leaflet to promote the latest 'Clwb Cwtsh' sessions, a Mudiad Meithrin programme which starts from 27th of November and which may be of interest to parents/carers and your wider local community.*
*Clwb Cwtsh is a short, fully funded informal 8 or 7-week Welsh taster programme focussed on speaking Welsh with young children (and is aimed at parents to be, parents/carers, members of the extended family). Learners won't need any Welsh to join. The course is provided on-line so learners can join from the comfort of their sofa, and by now we are offering some face-to-face courses too, depending on area.*
*If you would like to offer a specific Clwb Cwtsh course for parents/carers of children in your Cylch or school or if you would like further information, please get in touch with us: clwbcwtsh@meithrin.cymru*
*Please would you be so kind as to share this opportunity with the parents/carers of your school?*







***Half Term Calendar***
*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

***Important dates for next half term***
*We will be closing for the Christmas holidays on Thursday 21st December at 3:30pm.*
*Spring term will begin on Tuesday 9th January 2024.*

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

***Yours sincerely,***
***Gareth L James***
***Acting Headteacher***
***13/11/2023***
www.ysgolgymraeg.cymru